# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI
# 13-03-12

**Present: Mr David Dewsbury (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr Robert J. Wright a Sion S. Roberts (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd M. Sol Owen (Cyngor Tref Pwllheli), W.A. Partington (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol), Andrew Picken, (Siambr Fasnach Pwllheli) a Stephen Tudor (Clwb Hwylio Pwllheli).

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Wil Williams, (Rheolwr Harbwr Pwllheli), Huw Davies, (Prif Beiriannydd), Llyr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr W. Roy Owen, Peter Read, Ioan Thomas**

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2011, fel rhai cywir.

## 3. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyflwynodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei adroddiad gyda sylw penodol yn cael ei roi i'r materion canlynol:

- Ffioedd a Thaliadau
- Cyllidebau
- Mordwyo, Angorfeydd, Carthu
- Digwyddiadau
- Llithrfa Gyhoeddus

### Ffioedd a Thaliadau

Hysbysodd y swyddog i Fwrdd y Cyngor gymeradwyo ffioedd a thaliadau Hafan Pwllheli ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Yn ogystal, cafodd y ffioedd a'r taliadau ar gyfer Harbwr Allanol Pwllheli a harbyrau a thraethau eraill a reolir gan y Cyngor eu cefnogi a'u cymeradwyo gan yr Arweinydd Portffolio. Nododd ei bod yn ofynnol cynyddu'r ffioedd am angorfeydd yn Harbwr Allanol Pwllheli 5% a dyma'r cynnydd cyntaf o'i fath ar gyfer badau yn y rhan hon o'r harbwr ers sawl blwyddyn. O ystyried statws bregus yr hinsawdd ariannol, fe benderfynodd Bwrdd y Cyngor na ddylid cynyddu'r ffioedd a'r taliadau yn yr Hafan yn 2012. Yn ogystal, awdurdodwyd disgownt hael yn y ffioedd angori presennol a bydd hynny'n berthnasol i bob cwsmer a gadarnhaodd ei fwriad i angori yn yr Hafan yn 2012.

Nododd y rhagwelir y bydd y gyfradd chwyddiant ar gyfer yr Harbwr Allanol yn 2012 yn 4.81% o'i gymharu â chyfradd chwyddiant negyddol o 0.13% yn 2011. Rhagwelir y bydd y gyfradd chwyddiant ar gyfer Hafan Pwllheli yn 2012 yn 4.29% o'i gymharu â chyfradd chwyddiant o 1.90% yn 2011. Bydd y targed incwm cyffredinol ar gyfer ardal yr Harbwr Allanol yn 2012/13 yn £123,810 o'i gymharu â £118,130 yn 2011. Y targed incwm cyffredinol ar gyfer yr Hafan yn 2012 fydd £1,607,470. Yn gyffredinol, mae targedau incwm a gwariant yn cynyddu'n unol â'r gyfradd chwyddiant a ragwelir. Nododd bod y

cynnydd yn nharged incwm cyffredinol yr Uned Forwrol am 2012/13 yn £97,590, sy'n cymharu gyda tharged a gynyddwyd o £57,330 yn 2011/12. Mae hyn yn cynyddu targed incwm cyffredinol yr Uned Forwrol, heb gynnwys Parciau Gwledig, i £2,467,550 yn 2012/13, targed sylweddol fyddai'n her i'w gyrraedd yn yr hinsawdd economaidd fregus a chyfnewidiol sydd ohoni. Tynnodd sylw bod targed incwm Hafan Pwllheli a'r Harbwr Allanol wedi llwyddo i gyrraedd ei darged yn y blynyddoedd a fu ac weithiau wedi rhagori ar y targed. Yn anffodus, yn 2011/12 rhagwelir y bydd diffyg bychan ym mantolen gyffredinol y gyllideb. Bydd angen i'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig weithredu er mwyn sicrhau bod y gwariant cyffredinol a'r targedau incwm yn cael eu cyflawni heb gyfaddawdu ar y safonau ar gyfer y cleientiaid.

Nododd hefyd bod y ffioedd a'r taliadau i gofrestru cychod pŵer a badau dŵr personol wedi cynyddu'n ogystal am y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r ffioedd lansio yn aros fel y maent fel sydd eisoes wedi digwydd yn y blynyddoedd diwethaf.

Tynnodd sylw i 328 o gwsmeriaid gadarnhau eu bod angen angorfa yn yr Hafan eleni o'i gymharu â 358 y llynedd. 'Roedd yn eithaf ffyddiog y gellir cyrraedd yr un nifer â'r llynedd. Nododd y collwyd 51 cwsmer yn yr Hafan eleni sy'n ffigur is nac yn y blynyddoedd a fu. Parthed yr harbwr allanol, derbyniwyd cadarnhad bod 94 angen angorfa yno ond oherwydd newidiadau, bydd 16 ohonynt yn cael angorfa yn yr Hafan. Er tynnu sylw at y cyfleon sydd ar gael yn yr Hafan, fe hysbysebwyd mewn dau gylchgrawn.

**Cyllidebau**

Cyflwynwyd manylion parthed incwm a gwariant Hafan Pwllheli, yr harbwr allanol a'r traethau hyd at 31 Rhagfyr 2011.

Nododd y swyddog bod y targed incwm yn yr harbwr allanol yn £118,130 ar gyfer 2011/12 a bod cyfanswm yr incwm a grewyd hyd diwedd Rhagfyr 2011 ond yn £89,130 gan adael diffyg sylweddol o £29,124, fydd yn rhaid ei adnabod o fewn penawdau cyllideb gwariant. Ni ragwelir y gellir cynhyrchu incwm sylweddol yn ystod Mawrth 2012 yn yr harbwr allanol, ac felly mae'n annhebygol y bydd y targed incwm yn cyrraedd y targed gofynnol yn y flwyddyn ariannol hon unwaith eto.

'Roedd y targed incwm sy'n ymwneud â Hafan Pwllheli yn £1,567,470 ar gyfer 2011/12 a bod cyfanswm yr incwm a grewyd hyd ddiwedd Rhagfyr 2011 wedi cyrraedd £1,372,008 o'i gymharu ag incwm o £1,485,007 am yr un cyfnod y llynedd a bod y diffyg yn yr incwm ar 31 Rhagfyr 2011 yn £195,462 o'i gymharu â £77,623 yr un adeg y llynedd. Rhagwelir y gallai'r targed incwm leihau ychydig o'r targed gofynnol yn y flwyddyn ariannol bresennol. Er bod y diffyg yn ymddangos yn sylweddol ar 31 Rhagfyr 2011, rhagwelir y bydd y gyllideb gyffredinol ar gyfer yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig o fewn y targed.

Cyfeiriodd y swyddog at y ffi a roddir i Ystad y Goron yn unol â'r cytundeb ar gyfer yr harbwr yn seiliedig ar incwm gros Hafan Pwllheli. Ers sawl blwyddyn bellach mae'r taliad a wneir i Gomisiynwyr Ystad y Goron wedi bod yn 10% o'r incwm gros gydag incwm tanwydd yn eithriedig o'r cyfanswm incwm. Mae'r ffi a delir i'r Comisiynwyr yn 2011/12 yn aros yn 145k, sy'n swm sylweddol ond nid yw'n cynnwys y ffi sy'n daladwy am les y blaendraeth sy'n berthnasol i'r harbwr allanol a lesau blaendraethau eraill yng Ngwynedd. Bwriedir trafod yn y dyfodol agos gydag asiant y Comisiynwyr y posibilrwydd o leihau'r swm a delir iddynt.

Nododd bod y gwariant hyd yn hyn wedi bod tu hwnt i'r gyllideb dan nifer o benawdau yn yr harbwr allanol a'r Hafan ac 'roedd hyn yn peri ychydig o bryder gan y rhagwelir gwariant ychwanegol yn ystod mis Mawrth. Bydd yr incwm ychwanegol a greeir yn cael ei ddyrannu i benawdau penodol er mwyn sicrhau bod y gyllideb gyffredinol yn cyrraedd y targed gofynnol. Nododd hefyd gynnydd sylweddol mewn costau trydan o'i gymharu â'r

costau yn 2007/08. Bydd y gwariant cyffredinol dan y pennawd cyllid trydan yn gostwng oherwydd bod y targed incwm ar y gyllideb incwm trydan wedi ei gyrraedd.

**Mordwyo/Angorfeydd/Carthu**

Hysbysodd y swyddog bod yr holl gymhorthion sy'n arwain i Harbwr Pwllheli wedi aros yn eu lle yn ystod misoedd y gaeaf ac mae'r mwyafrif ohonynt yn yr harbwr wedi eu gosod ar y mur hyfforddi a chafwyd problemau dyrys gyda chael mynediad at rannau uchaf y pyst marcio er mwyn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw a gwblhawyd erbyn hyn. O ystyried bod y sianel a arweiniai at fasn y marina wedi newid yn sylweddol ers y datblygwyd yr harbwr yn wreiddiol, cynhelir arolwg o'r cymhorthion mordwyo yn ystod y misoedd nesaf. Er y rhagwelir mai cymhorthion mordwyo sy'n arnofio fyddai'r dull mwyaf cost effeithiol o farcio'r sianel a'r dull mwyaf ymarferol o wneud hynny, rhoddir ystyriaeth i'r posibilrwydd o ddefnyddio strwythurau mwy parhaol ar gyfer y diben hwn. Byddai'r gost o brynu a gosod y pileri mordwyo yn cyfyngu ar yr ystyriaeth hon. Nododd, yn ddiweddar daethpwyd â'r Bwi Sianel Fordwyo i'r lan er mwyn ymgymryd â gwaith cynnal arno ac fe'i osodwyd yn ôl yn ei le erbyn hyn. Mae'r bwiau mordwyo Port a leolwyd yng ngheg yr harbwr wedi eu huwchraddio a byddant yn aros yn eu lle presennol yn y dyfodol rhagweladwy.

Nododd, er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa gyfredol parthed y deunydd sy'n cael ei ddyddodi yng ngheg yr harbwr mewnol, penodwyd contractwr yn ddiweddar i ymgymryd â'r prosiect hwn a dechreuir ar y gwaith o symud y deunydd yn ystod Gŵyl y Pasg. Sicrheir y morwyr na fyddai'r gwaith hanfodol hwn yn effeithio ar fordwyo yn ystod y cyfnod hwn. Ymgymerir â'r gwaith o symud y deunydd a ddyddodwyd o geg yr harbwr gan ddefnyddio peiriannau a leolwyd ar y tir a bydd y deunydd a garthir yn cael ei storio ar y safle stoc-bentyrru presennol. Yn y gorffennol, 'roedd cymorth grant hyd at werth 85% o gyfanswm y gost ar gael i waith adfer traethau, ond nid oedd cymorth grant ar gael i'r prosiect hwn. 'Roedd yn rhaid adnabod y cyllid ar gyfer y gwaith hwn o fewn cyllideb yr Uned Forwrol a bydd y gost o symud y deunydd o'r stoc bentwr i Carreg y Defaid ynghyd â'r gost o garthu ceg yr harbwr yn 131k.

Fel mesur pellach er mwyn gwella mordwyo i gychod sy'n mynd a dod o'r harbwr, fe adnabuwyd a daethpwyd i'r casgliad bod yn rhaid symud nifer o byst angori o'r ardal gyfagos i'r llithrfa gyhoeddus. O ystyried pwysigrwydd y gwaith hwn, cyflwynwyd cais am Drwydded Forwrol i Uned Caniatadau Morwrol, Llywodraeth Cymru ar ddiwedd 2011. Gwahoddwyd cwmniau addas i gyflwyno tendrau am y gwaith. Er na fydd cyfanswm o 30 o byst angori bellach ar gael yn yr harbwr allanol, bydd symud y pyst angori'n sicrhau y bydd rhai dosbarthiadau o gychod yn medru mordwyo'r sianel waeth beth fyddai cyflwr y llanw. Nododd bod y sianel wedi sefydlogi yn yr ardal hon yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac felly 'roedd yn briodol i ymgymryd â'r gwaith hwn. Yn y tymor hir, bydd symud y pyst o fantais i'r harbwr yn gyffredinol a bydd yn lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â charthu'r sianel a gwaredu'r dyddodion yn sylweddol. Ar ôl cwblhau'r gwaith o garthu ceg yr harbwr a symud y pyst angori, ymgymerir ag arolwg hydrograffigol manwl o'r harbwr.

Nododd ei bod yn ofynnol bod Bwiau Marcio Parth y Traeth tymhorol ar draeth Abererch ac ar draeth Marian y De yn cael eu rhoddi yn eu lle cyn 26 Mai 2012 a bydd yn rhaid i'r bwiau marcio cyfyngiadau cyflymder a leolwyd yng ngheg yr harbwr fod yn eu lle erbyn 1 Mai 2012. Gan bod yr holl angorfeydd cyffredinol yn yr harbwr allanol wedi eu cynnal a'u cadw i safon uchel am nifer o flynyddoedd, ni ragwelir y bydd angen gwaith archwilio a chynnal a chadw pellach gan ddefnyddio contractwr plymio yn ystod 2012.

Mewn perthynas â'r ardal gyferbyn â Iard Partington, gofynnodd aelod os y byddai'r sianel yn aros yr un fath neu a fyddai'n debygol o symud ychydig. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog pan fyddai gwaith carthu ar gyfer yr Academi Hwylio yn digwydd, gellid manteisio ar ddefnyddio'r carthwr i lanhau'r sianel a'r basn yn ogystal. Hysbysodd

yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned o ran y cynllun hir-dymor 'roedd trefniadau mewn lle i dynnu'r stanciau a fyddai'n hwyluso trefniadau mordwyo yn y sianel ac o safbwynt y tymor byr bwriedir gosod pontŵn rhwng y stanciau presennol.

**Digwyddiadau**

Adroddodd y swyddog y cynhelir Gŵyl Wakestock yn yr harbwr o 5-7 Gorffennaf 2012.

Rhoddodd fanylion am y cystadlaethau hwylio Cenedlaethol a Rhyngwladol sydd i'w cynnal ym Mhwllheli yn 2012. Canmolodd y gwaith arbennig a gwblhawyd gan Glwb Hwylio Pwllheli yn denu digwyddiadau hwylio mawr i Pwllheli. Nododd cynrychiolydd y clwb hwylio y rhagwelir y bydd y flwyddyn hon yn un brysur iawn a disgwylir 300 o gystadleuwyr ar gyfer un o'r cystadlaethau yn Ebrill. 'Roedd yr incwm a ddeuai i'r ardal yn sgîl y cystadlaethau hyn yn sylweddol.

Tynnodd sylw'r aelodau at y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi Ewropeaidd newydd a ddeuai i rym yn 2015. Er y bydd cyflawni'r meini prawf llym parthed Dyfroedd Ymdrochi, fel y'u sefydlwyd gan y Gyfarwyddeb newydd, yn heriol mewn nifer o ardaloedd, ni rhagwelir y bydd Ansawdd Dyfroedd Ymdrochi ym Marian y De yn cael ei effeithio. Mae safon dyfroedd ymdrochi Pwllheli wedi bod yn gyson iawn tros y chwe blynedd diwethaf a disgwylir y bydd proffil Dyfroedd Ymdrochi Pwllheli yn derbyn safon "rhagorol" dan y Gyfarwyddeb newydd yn 2015.

**Llithrfa Gyhoeddus**

Hysbysodd y swyddog y lleolwyd y llithrfa a ddefnyddir gan y cyhoedd i lansio cychod a'u tynnu allan o'r dŵr ger swyddfa'r harbwr o fewn ardal yr harbwr allanol. Rheolir y llithrfa gan yr harbwrfeistr ac mae'n gyfrifol am gasglu'r ffioedd lansio a sicrhau bod pob cwch wedi ei gofrestru gyda'r Cyngor. Yn ystod yr amser prysuraf yn y tymor hwylio rhwng Ebrill a Medi, fel arfer fe reolir y llithrfa saith diwrnod yr wythnos rhwng 09.00 a 17.00. Er bod y llithrfa'n boblogaidd ac yn cael ei defnyddio gan nifer o gychod, yn enwedig yn ystod tywydd braf, mae angen llawer o adnoddau staff i'w rheoli. Golygai goruchwylio'r llithrfa bod yn rhaid i nifer o staff fod yn bresennol ar y safle gydol y dydd ac er bod hyblygrwydd yn nhrefn y gwaith, ni ellir cwblhau rhai tasgau oherwydd bod yn rhaid i staff ddyrannu rhan o'u dyletswyddau i reoli'r llithrfa. Nododd bod cyfanswm yr incwm a gafwyd drwy gasglu ffioedd lansio yn 2011 yn £4,509 ond nid yw'r swm hwn yn cynnwys y ffioedd cofrestru nac ychwaith yr incwm a geid gan gwsmeriaid sy'n prynu trwydded lansio tymhorol. Caniateir i gwsmeriaid sydd â thrwydded o'r fath lansio eu cychod ar unrhyw lithrfa yng Ngwynedd.

Nododd mai bwriad yr uned yw sicrhau bod holl agweddau'r harbwr yn cael eu rheoli'n unol â disgwyliad y cwsmer. Mae presenoldeb harbwrfeistr yn yr harbwr ac o'i gwmpas yn cyflawni swyddogaeth bwysig iawn. Mae'n ofynnol i unrhyw aelod o staff yr uned sydd ar ddyletswydd fedru rhoddi cyfarwyddiadau i gwsmeriaid a'u cynghori ynglyn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r harbwr. Ar adegau, oherwydd gofynion sicrhau bod y llithrfa'n cael ei rheoli'n effeithiol, ni ellir cwblhau rhai tasgau o fewn yr harbwr. Bwriad yr uned yw sicrhau bod yr harbwrfeistr, neu ei ddirprwy, yn medru patrolio'r harbwr ar droed neu mewn cwch yn effeithiol ac y bydd yr harbwrfeistr yn medru cyflawni dyletswyddau eraill yn ôl y gofyn. Nododd oherwydd y sefyllfa ariannol bresennol, nid yw'n bosibl cyflogi Cymhorthydd Harbwr Tymhorol eleni. Er mwyn bod mewn sefyllfa i fedru rheoli'r harbwr yn effeithiol gydag adnoddau prin, 'roedd o'r farn y dylid ystyried allanoli rheolaeth y llithrfa. Rhagwelir y bydd cwmniau neu unigolion priodol yn cael eu gwahodd i gyflwyno eu bwriad drwy dendr cyhoeddus. Byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn medru casglu'r ffioedd lansio gan y rhai sy'n talu ffi lansio dyddiol. Byddai'n ofynnol i'r ymgeisydd sicrhau bod yr holl gychod sy'n cael eu lansio ar y llithrfa wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor ond ni fyddai hawl gan yr ymgeisydd i godi ffi cofrestru neu godi ffi ychwanegol

neu ailgodi tâl ar ran y Cyngor ar gwsmeriaid sydd â thrwydded lansio flynyddol. Gofynnodd am farn yr aelodau ar y mater.

‘Roedd aelod o’r farn bod y gost lansio o £12 yn isel ac y dylid ystyried ei godi. Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog bod nifer o’r rhai sy’n defnyddio’r llithrfa i lansio cychod yn prynu tocyn tymor.

**PENDERFYNWYD bod y swyddogion perthnasol i ystyried gwahanol ddulliau i geisio datrys sefyllfa’r llithrfa.**

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

**4. MATERION I’W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU’R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

**a) Hafan, Pwllheli**

Diolchodd cynrychiolydd Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli i’r Cyngor ac yn arbennig i Swyddogion yr Uned Forwrol am wrando ar bryderon yr aelodau parthed y lleihad yn neiliaid yr angorfeydd ac am ymateb yn gadarnhaol i wrthdroi’r lleihad.

**b) Gwaredu’r deunydd a garthwyd**

Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli bod y carthu blynyddol o geg yr harbwr a’r golled grant o wneud hynny, ynghyd â’r gost cynyddol o waredu’r deunydd a garthwyd gan ddefnyddio’r briffordd, yn disgyn ar y Gymdeithas a’i fod yn anghynaliadwy. ‘Roedd Traeth Abererch yn colli allan o’r dull carthu presennol o’r deunydd naturiol sy’n maethu’r twyni, gan achosi erydiad difrifol i’r traeth, ac os na fydd yn cael ei gywiro yna gallai achosi llifogydd difrifol. Gofynnai’r Gymdeithas am i’r dull presennol o waredu gael ei adolygu gan ystyried rhoddi peth o’r deunydd a garthwyd ar Draeth Abererch.

Mewn ymateb, hysbysodd y Prif Beiriannydd bod Traeth Abererch yn gyfrifoldeb Asiantaeth yr Amgylchedd tra bod y Cyngor yn gyfrifol am Draeth Crugan, Llanbedrog. Nododd ei bod yn rhatach i waredu’r deunydd a garthwyd ar Draeth Crugan yn hytrach nag ar Draeth Abererch. Parthed y golled grant, ‘roedd o’r farn mai mesur tros dro yn unig oedd hyn.

**c) Gwifren Tonfyrddio Pwllheli**

Cyfeiriodd aelod at y cais a ystyriodd y pwyllgor hwn y llynedd gan berchennog Ysgol Hyfforddiant Tonfyrddio Pwllheli parthed gosod gwifren tonfyrddio ar hyd rhan o harbwr allanol Pwllheli. Derbyniodd y wifren tonfyrddio ganiatâd cynllunio, ond ni ofynnwyd i’r Cyngor fel landlord am hawl i fynd ar y tir. Erbyn hyn gan bod gwaith ar yr Academi Hwylio yn mynd rhagddo, deellir bod y Cyngor angen y tir i waredu’r deunydd carthu. Gofynnodd i’r pwyllgor ystyried a fyddai’n bosibl eu cynorthwyo mewn unrhyw fodd.

Mewn ymateb, hysbysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y cynhailwyd trafodaethau gyda chyn berchennog cwmni Wakestock parthed y potensial o sefydlu ysgol tonfyrddio ym Mhwllheli pryd y rhoddwyd ystyriaeth i sawl safle posibl ac yn benodol y tir rhwng yr ynys a Morfa Garreg. Pan ystyriwyd y mater gan y pwyllgor hwn y llynedd fe’i derbyniwyd mewn egwyddor. Tynnwyd sylw’r ymgeisydd bod angen iddo fynd drwy sawl proses cyn dechrau’r fenter gan gynnwys derbyn caniatâd cynllunio. Rhoddodd yr Uned Forwrol sylwadau ar y cais cynllunio gan dynnu sylw y byddai angen y tir hwn ar gyfer datblygu ar gyfer y dyfodol unai ar gyfer datblygu’t marina neu ar gyfer gwaredu’r deunydd carthu a.y. Nododd bod yr ymgeisydd yn awyddus i hybu’r fenter hon ym Mhwllheli. Ar ôl derbyn y caniatâd cynllunio nid oedd yr ymgeisydd yn sylweddoli bod yna gamau pellach i’w cymryd e.e. angen ymgynghori â’r Adran Ymgynghoriaeth a’r

Uned Eiddo. Nododd mai trwydded flynyddol yn hytrach na chaniatâd parhaol fyddai'r fenter yn cychwyn. 'Roedd yr ymgeisydd wedi ymgymryd â peth gwaith eisoes i sefydlu'r fenter ym Mhwllheli gan gynnwys prisiau am gysylltu trydan i'r wifren. Gyda datblygiad yr Academi Hwylio rhagwelir y bydd angen y tir i waredu deunydd llaid a.y. ac fe adnabuwyd yr ardal fel un â photensial i wneud hynny. Deellir bod yr ymgeisydd wedi cyfarfod Rheolwr yr Hafan i drafod potensial arall yn Mhwllheli.

**PENDERFYNWYD bod y swyddogion perthnasol a'r aelodau lleol i drafod â'r ymgeisydd, opsiynau eraill ar gyfer cynnal y fenter.**

## 5. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 23 Hydref 2012.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 7.45pm